Cyngor Celfyddydau Cymru

Teithio'n Genedlaethol

Crynodeb o'r ymgynghoriad a'n hymateb iddo

Gorffennaf 2011

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Teithio'n Genedlaethol

Crynodeb o'r ymgynghoriad a'n hymateb iddo

Cyflwyniad

Yn rhan o'n Hadolygiad Buddsoddi, gwnaed ymrwymiad i sefydlu ffrwd ariannu newydd ar gyfer **Teithio'n Genedlaethol**. Byddai hyn yn adeiladu ar ein grantiau Teithio'n Genedlaethol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio ac yn cymryd eu lle. Ein cynnig oedd dyrannu dogn sylweddol o gronfeydd y loteri i'r rhaglen newydd yma a fydd yn gweithredu ar draws y ffurfiau ar gelfyddyd ym meysydd drama, cerddoriaeth, dawns, y celfyddydau gweledol a'r celfyddydau cymhwysol, yn ogystal â hyrwyddo gwaith sy'n cyfuno'r gwahanol fathau o gelfyddyd, fel crefft y syrcas.

Trwy'r cynigion hyn, ein nod oedd:

- sicrhau bod mwy o waith o ansawdd uchel yn teithio;
- hyrwyddo partneriaethau a mentrau cydweithredol newydd (yn enwedig rhwng artistiaid, curaduron, cyflwynwyr, cynhyrchwyr ac arddangoswyr);
- cydategu gwaith artistig a gyflwynir neu a gychwynnir gan y rhwydwaith o ganolfannau ac orielau, a chan gwmnïau cynhyrchu annibynnol;
- cydategu ein cynllun teithio cymunedol, Noson Allan, a'r Cynllun Teithio Trawsffiniol (sef menter ar y cyd rhwng y pedwar Cyngor Celfyddydau gyda'r nod o helpu gweithiau celfyddyd perfformio graddfa fawr i deithio'n genedlaethol yn y DU).

Fe gychwynnon ni'r ymgynghoriad hwn gyda seminar yn ein Cynhadledd yng Nghasnewydd ym mis Tachwedd 2010. Casglwyd safbwyntiau'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill trwy ein Pwyllgorau Rhanbarthol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 4 Chwefror 2011.

Yn ogystal ag adborth gan y rhai a fynychodd y Gynhadledd ac aelodau'r Pwyllgorau Rhanbarthol, cawsom 20 o ymatebion ysgrifenedig:

Sefydliadau Cyllid Refeniw (2010/11)	13
Sefydliadau eraill	3
Unigolion	4

Diolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Croesawyd ein cynnig i fuddsoddi mwy mewn teithio ledled Cymru, a'n bwriad i ehangu'r cwmpas i gynnwys y celfyddydau gweledol a chymhwysol hefyd. Mynegwyd llawer o safbwyntiau am bwysigrwydd teithio'n genedlaethol yng Nghymru ac ar draws y DU. Denodd lledaeniad daearyddol y cynllun llawer o sylwadau hefyd. Tynnwyd sylw at y

gwahaniaethau rhwng y rhwydweithiau o theatrau a chanolfannau'r celfyddydau ac orielau.

Rydyn ni wedi edrych yn ofalus ar yr holl ymatebion a gawsom. Mae'r crynodeb hwn yn tynnu'r prif themâu a syniadau at ei gilydd, ac yn cynnig ein hymatebion ni iddynt.

Beth yw'r camau nesaf?

Rydyn ni wedi bod yn ymgynghori ar nifer o gynigion ar gyfer mentrau datblygu a ffrydiau ariannu, ac mae Teithio'n Genedlaethol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn. Nid yw rhai o'r cynigion hyn wedi eu datblygu'n llwyr eto. Byddwn ni'n ymgorffori'r gyfres newydd hon o gyfleoedd i'n canllawiau ariannu cyffredinol ar gyfer 2012/13 ynghyd â'r meini prawf a'r blaenoriaethau terfynol. Byddwn yn cyhoeddi'r rhain yn Chwefror 2012.

Felly beth am y flwyddyn hon?

Mae yna flaenoriaeth arian Loteri eisoes sy'n cefnogi'r gweithgarwch Teithio'n Genedlaethol ar gyfer 2011/12. Byddwn yn derbyn ceisiadau am gynhyrchu a theithio ar bob dyddiad cau, ar ffurf grantiau Bychain (hyd at £5,000) neu Brif-ffrwd (hyd at £30,000). Mae hyn yn codi i £100,000 yn achos dyddiad cau yr hydref, a hynny er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu projectau sylweddol mwy.

Nid ydym yn bwriadu newid y dull hwn o weithredu. Byddwn yn ystyried ceisiadau ar gyfer gynhyrchu a theithio ym meysydd drama, cerddoriaeth, dawns, y celfyddydau gweledol a'r celfyddydau cymhwysol, yn ogystal â gwaith sy'n cyfuno'r gwahanol feysydd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau rhwng £5,001 a £100,000 fydd 30 Medi 2011.

Crynodeb o'r Ymatebion

Dylid nodi y defnyddir y gair 'canolfan' yn y ddogfen hon i olygu theatrau, orielau, neuaddau cyngerdd, canolfannau'r celfyddydau a lleoliadau safle-benodol eraill lle daw'r celfyddydau a chynulleidfaoedd at ei gilydd.

Cwestiwn 1

"Ydych chi'n cytuno â'n disgrifiad o ran pwy fydd yn gymwys i gael cefnogaeth?"

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r disgrifiad. Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr "Ydw, mae'r rhestr arfaethedig o sefydliadau ac unigolion yn edrych yn gynhwysfawr." Roedd un ymatebwr yn anghytuno, a rhoddodd esboniad manwl o'r pwysau sy'n wynebu cwmnïau sy'n teithio.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurhad o'r derminoleg, yn enwedig mewn perthynas â'r Sefydliadau Cyllid Refeniw (SCR) sy'n cyrchu cyllid am weithgareddau nad ydynt yn dod o fewn cwmpas eu Cytundebau Cyllid Refeniw.

Dywedodd un ymatebwr bod "Gweddill y cynigion i'w gweld yn gall," ond roedd "yn awyddus i sicrhau nad oedd gwaith arloesol yn cael ei gosbi am nad oedd dod o'r genres sefydledig."

Doedd neb yn anghytuno â'r safbwynt y dylai fod modd i unigolion sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliad wneud cais am y cyllid hwn.

Dim ond un o'r ymatebwyr a wnaeth sylw am gymhwyster grwpiau theatr amatur, cymunedol neu ieuenctid. Awgrymodd y dylid defnyddio "gweledigaeth artistig eithriadol neu arloesol" yn hytrach na'r lefel o ymrwymiad proffesiynol. Nododd hefyd nad yw rhai artistiaid da yn ennill digon i gymhwyso fel rhai 'proffesiynol', felly byddai geiriau fel 'ansawdd' a 'phroffesiynoldeb' yn fwy priodol.

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn. Byddwn yn dal ati i wneud pob ymdrech i sicrhau bod ein dogfennaeth mor glir â phosibl. Byddwn yn parhau i asesu ceisiadau gan y gwahanol ffurfiau ar gelfyddyd ar sail eu teilyngdod.

Rydyn ni'n argyhoeddedig o hyd y dylai fod lle i SCR ymgeisio am gyllid ar gyfer gweithgareddau sy'n ychwanegol i'r gwaith yr ydym yn ei ariannu â chyllid refeniw. Ni ellir rhoi'r argraff ein bod ni'n ariannu gweithgareddau ddwywaith. Mae ein dogfennau diweddaraf ar Gytundebau Cyllid Refeniw yn disgrifio'n glir yr amgylchiadau lle gall SCR ymgeisio am gyllid project.

Mae ein canllawiau newydd ar gyllid y Loteri yn cynnwys blaenoriaethau penodedig ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol ac ar gyfer celfyddydau ar gyfer, gyda a chan bobl ifanc.

Cwestiwn 2

"Cymeradwywyd y terfyn uchaf cyfredol o 15% ar gyfer costau teithio yn y DU y tu hwnt i Gymru rai blynyddoedd yn ôl yn rhan o drafodaethau Teithio Trawsffiniol y pedwar Cyngor Celfyddydau. Ydych chi'n teimlo ei fod wedi ei bennu ar y lefel gywir?"

Cafwyd ymateb da i'r cwestiwn hwn. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd teithio'n genedlaethol yng Nghymru ac ar draws y DU, gyda phawb bron yn dweud bod y terfyn uchaf cyfredol o 15% ar gyfer teithio y tu hwnt i Gymru yn rhy isel. Mae'n ddiddorol nodi na chafwyd unrhyw awgrymiadau ar gyfer canran newydd.

Ystyrir bod teithio yn y DU yn hanfodol at ddibenion hygrededd, proffil a chynhyrchu incwm, heb sôn am greu cyfleoedd ar gyfer artistiaid ac ymarferwyr sy'n gweithio yng Nghymru. Fodd bynnag, soniodd rhai am anawsterau wrth sicrhau cyllid project gan Gyngor Celfyddydau Lloegr (CCLl) a fyddai'n eu galluogi i gystadlu, o ran ffioedd, â chwmnïau yn Lloegr. Cafwyd sawl cyfeiriad at y mas critigol o ganolfannau posibl ar y raddfa briodol yn Lloegr, yn enwedig o'i gymharu â Chymru a'r Alban. Disgrifiwyd hyn fel problem benodol yn y sector orielau lle mae mynd ag arddangosfa ar daith i Loegr yn hanfodol i'w hyfywedd ariannol. Disgrifiodd un ymatebwr y sialensiau a'r costau sydd ynghlwm wrth gael sylw yn Llundain.

Byddai'n well gan sawl un o'r ymatebwyr weld asesiad o'r ceisiadau ar sail eu teilyngdod yn lle dull cyffredinol sy'n trin pawb yr un fath.

Cyflwynodd sawl un ddadleuon a ffigurau cadarn i ategu eu pwyntiau, er enghraifft dywedodd un ymatebwr. "Nac ydw, mae'r terfyn o 15% ar deithio y tu hwnt i Gymru yn rhwystr mawr i sicrhau hyfywedd ariannol cwmnïau Cymreig. Mae hi'n derfyn derbyniol i gyrff yn y wlad fwy (Lloegr) lle mae'r gronfa o ddarpar-hyrwyddwyr a chynulleidfaoedd yn fwy o lawer, ond nid yw'r gwrthwyneb yn wir. Mae 15% yn cyfyngu cwmnïau i 2 berfformiad y tu hwnt i Gymru i bob 11 yng Nghymru. Felly os yw cwmni'n perfformio ym mhob theatr a chanolfan celfyddydau yng Nghymru, dim ond 8 neu 9 perfformiad y gallant eu gwneud y tu hwnt i Gymru i bob pwrpas! Mewn gwirionedd, dylai fod Cymru'n annog artistiaid i geisio denu cymaint o werth â phosibl o'i buddsoddiad, a dylai Cyngor y Celfyddydau fod yn seilio'i farn ar hyfywedd y project cyfan, yn hytrach na gosod terfynau artiffisial."

Dywedodd un arall, "Rwy'n credu y gallai fod yn fuddiol pennu'r lefel ychydig yn uwch. Mae'n hanfodol bod artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru yn cael arddangos eu gwaith y tu hwnt i'r wlad, er mwyn hyrwyddo datblygiad a thrafodaeth. Mae hyn yn helpu i

ddatblygu'r rhwydweithiau sy'n cynorthwyo'r artist ac yn eu gwneud nhw'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir."

Dywedodd un arall, "Po fwyaf y byddwn yn ceisio trefnu teithiau yng Nghymru, po fwyaf anodd y mae hynny. Os na all digon o ganolfannau yng Nghymru gymryd y cynnyrch (am ba reswm bynnag), hwyrach y bydd angen manteisio ar ganran uwch o ganolfannau y tu hwnt i Gymru er mwyn gwneud project yn hyfyw yn ariannol. Os gall cwmni ddangos ei fod wedi disbyddu ei gysylltiadau yng Nghymru, a bod angen iddo symud y tu hwnt i Gymru i wneud i daith weithio, yna dylai hynny fod yn dderbyniol."

Roedd un o'r ymatebwyr yn gyffyrddus â'r terfyn o 15%, ond awgrymodd y gellid gwneud eithriadau er mwyn hybu 'cwmnïau ifanc' a'u cynorthwyo i ddatblygu eu gwaith a'u proffil. Awgrym arall a wnaed oedd, "O gydnabod bod yna ddelfryd gyffredinol i symud i gyfeiriad partneriaethau creadigol rhwng sefydliadau ac artistiaid unigol, dylai'r Lwfans *(sic)* Teithio Trawsffiniol ganiatáu mwy o hyblygrwydd er mwyn hwyluso cydweithio creadigol."

Tynnodd un ymatebwr sylw at ochr arall yr hafaliad, gan ddweud, "Ar ochr arall y geiniog, gall y terfyn o 15% y mae CCC yn ei bennu ar gynyrchiadau o Loegr rwystro'r cynyrchiadau hynny rhag teithio i Gymru – ac mae hyn yn cyfyngu ar allu cynulleidfaoedd Cymreig i weld amrywiaeth ehangach o raglenni. Rwy'n deall y rhesymau pam yr ystyrir bod terfyn yn ddymunol – ac yn cytuno y dylai fod yna rhyw reolaeth dros fanteision buddsoddi er mwyn pobl Cymru. Fodd bynnag, hwyrach bod yr amser wedi dod i lacio'r terfyn o 15% a'i godi i ffigur uwch."

Dywedodd un ymatebwr, "Mae'r papur yn cydnabod bod y cyfleusterau ar gyfer y Celfyddydau Gweledol yn fwy prin na'r cyfleusterau ar gyfer y ffurfiau eraill ar y celfyddydau, fel y theatr. Yng ngoleuni hyn, mae yna anghysondeb rhwng rhai o'r pwyntiau a drafodir yn 4.2 o ran y projectau a osodir ar y lefel uchaf yn rhyngwladol, yn benodol y perthnasau rhwng 'ansawdd', 'safon a phriodoldeb y bobl fydd yn cydweithio â chi'n greadigol', a 'lledaeniad cenedlaethol'." Aeth ymlaen i esbonio'r safbwynt bod angen i brojectau rhyngwladol mawr ddod o hyd i bartneriaid o statws tebyg, sy'n gofyn am fwy o bartneriaid y tu hwnt i Gymru.

Aeth rhai o'r ymatebwyr ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth i deithio'n rhyngwladol, er bod hyn y tu hwnt i gwmpas ffrwd ariannu Teithio'n Genedlaethol ar hyn o bryd.

Ein Hymateb:

Rydyn ni'n derbyn yn llwyr fod teithio y tu hwnt i Gymru'n bwysig ac rydyn ni am gynorthwyo ein hartistiaid a'n cwmnïau gorau i gyflwyno'u gwaith i gynulleidfaoedd ehangach. Rydyn ni'n cydnabod y farn fod y terfyn uchaf presennol o 15% yn rhwystr i deithio yn y DU.

Mae'r cwestiwn o deithio y tu hwnt i Gymru yn dipyn o bos i ni: ar y naill law mae gofyn i ni sicrhau y defnyddir ein cyllid Loteri er budd pobl Cymru; ac ar y llall, mae disgwyl i ni hyrwyddo artistiaid Cymreig a'u gwaith yn ddyfal ar 'y llwyfan rhyngwladol', gan gynnwys dros y ffin. Am hynny, mae angen i ni feddwl yn ofalus sut y byddwn yn buddsoddi mewn gwaith artistig a gyflwynir y tu allan i Gymru, wrth sicrhau y gwelir manteision hyn nôl yng Nghymru hefyd.

Mae pedwar Cyngor Celfyddydau'r DU yn wynebu'r un broblem. Fel y nododd un ymatebwr, sefydlwyd y cytundeb Teithio Trawsffiniol yn dilyn eu trafodaethau ar y cyd, sawl blwyddyn yn ôl.

Mae llawer o bobl yn teimlo ei bod hi'n bryd i ni edrych eto ar y cytundeb hwn. Byddai'n anodd i ni weithredu'n unochrog yn hyn o beth heb godi pryderon am 'wario gormod o arian dros y ffin'. Am hynny, rydyn ni'n teimlo taw gwahodd ein cyd Gynghorau'r q2Celfyddydau i gynnal trafodaethau newydd yw'r ffordd orau o barhau.

Cwestiwn 3

"Ydych chi'n teimlo ein bod ni'n cynorthwyo cwmnïau Cymreig i deithio yn y DU yn y ffordd orau?"

Bu'r mater o deithio ar draws y ffin yn amlwg yn yr ymatebion hyn eto a chyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr ni nôl at eu hatebion i Gwestiwn 2. Gofynnwyd am ddialog pellach gyda'n cyd Gynghorau'r Celfyddydau yn hyn o beth.

Yn ogystal â chyfeirio at y terfyn uchaf o 15%, roedd sawl un o'r ymatebwyr yn poeni am y Cynllun Teithio Trawsffiniol ei hun (mae hyn yn helpu cwmnïau mawr penodedig ym maes y celfyddydau perfformio i deithio i grŵp penodedig o ganolfannau ar draws y DU). Y teimlad oedd bod y meini prawf yn rhy gyfyngedig a'u bod yn llesteirio gwaith 'arbenigol'. Nododd un ymatebwr hefyd bod y Cynllun Teithio Trawsffiniol "yn berthnasol i gynnyrch teithiol graddfa fawr yn unig; er y gellid gwario'r un swm o arian i'n cynorthwyo ni i deithio am hyd at ddeg wythnos yng Nghymru a Lloegr. Yn nhermau hyrwyddo diwylliant Cymru yng ngweddill y DU, rydyn ni'n cwestiynu effeithiolrwydd cael tri pherfformiad gan gwmni Seisnig (neu gwmni o gynhyrchydd yn Lloegr) yng Nghymru, yn hytrach na deg wythnos o gwmni Cymreig yn teithio yn Lloegr."

Ymysg y materion eraill a godwyd mewn perthynas â theithio roedd: cydnabod natur gyfyngedig y farchnad Gymreig o'i chymharu â'r un Seisnig; yr angen am i gwmnïau, "godi eu gêm i gystadlu y tu hwnt i Gymru – yn nhermau beirniadol a chystadleuol"; ac "mae rhagor o botensial ar gyfer proffilio, llwyfannu gwaith ac eiriolaeth, a dylid parhau i roi mwyn o anogaeth i gwmnïau gadw eu gwaith gorau ar y llwyfan". Dywedwyd wrthym hefyd "nad yw maint y cyllidebau bob amser yn cyd-fynd 'r disgwyliadau o ran ansawdd".

Cynigiwyd y syniad o gronfa benodedig ar gyfer teithio yn y DU ac yn rhyngwladol. "Os yw LlCC a CCC am ddefnyddio'r celfyddydau mewn ffordd lysgenhadol er mwyn hybu Cymru a dathlu cymuned artistig Cymru ledled y DU a thramor, yna dylai CCC ddethol cwmnïau/sefydliadau/artistiaid i gynrychioli Cymru trwy glustnodi ffynhonnell cyllid i'w ddefnyddio'n unswydd ar gyfer teithio yn y DU ac yn Rhyngwladol, a hynny'n ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru."

Awgrymodd un ymatebwr ein bod ni'n sefydlu swydd neu adran Deithio er mwyn "helpu cwmnïau sy'n teithio yng Nghymru i sefydlu cylchdeithiau teithio yn Lloegr a'r Alban." Aethant ymlaen i ddweud y dylai hyn ganolbwyntio ar gwmnïau bychain/canolig eu maint yn hytrach na'r cwmnïau mwy, ac y gellid ei ystyried yn rhan o'r briff ar gyfer swydd y Cynhyrchydd Creadigol.

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn. Gallai rhai ohonynt fwydo i i'r trafodaethau a argymhellwyd gyda'n cyd Gynghorau'r Celfyddydau.

Fel y dywedwyd eisoes, mae Adolygiad Sefydliadol ar y gweill ar hyn o bryd. Bydd hyn yn edrych ar yr amrywiaeth o wasanaethau yr ydym yn eu cynnig ac yn sicrhau arbedion ar ein costau cynnal. Byddwn ni'n casglu safbwyntiau ac adborth o'r tu allan, ond ni wyddom hyd yn hyn a yw teithiau graddfa ganolig yn swyddogaeth y mae galw mawr amdanynt. Rydyn ni'n disgwyl sefydlu ein strwythur newydd o ran gwasanaethau a staff erbyn Ebrill 2012.

Byddwn yn ystyried hyfywedd clustnodi cyllid penodedig ar gyfer teithio yn y DU ac yn rhyngwladol mewn ffordd a fydd yn ein galluogi ni i gadw o fewn gofynion y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol hefyd.

Cwestiwn 4

"Ydych chi'n teimlo taw'r rhain yw'r meini prawf cywir i ni eu defnyddio wrth asesu ceisiadau?"

Roedd rhyw chwarter o'r ymatebion i'r cwestiwn hyn yn teimlo ein bod ni wedi pennu'r meini prawf cywir. Er bod y lleill yn eu cefnogi'n gyffredinol, roedd ganddynt sylwadau i'w cynnig am y meini prawf penodedig. Ceir crynodeb o'r rhain isod. Y cwestiwn o ledaeniad daearyddol cenedlaethol a ddenodd y nifer fwyaf o sylwadau yn yr adran hon – naw ohonynt i gyd. Cafwyd nifer o sylwadau hefyd am y gwahaniaeth rhwng y celfyddydau perfformio sy'n teithio a'r celfyddydau gweledol sy'n teithio, a byddai angen i'r cynllun gydnabod y rhain.

Nododd un ymatebwr ei bod hi'n anodd cael ymrwymiadau cadarn gan ganolfannau teithio ymhell ymlaen llaw, a doedd un arall ddim yn gweld bod gwerth 'denu cefnogaeth' cyn i grant gael ei ddyfarnu. Gofynnodd un arall am fwy o eglurder o ran sut yr ydym yn mesur marchnata a chefnogaeth gan ganolfannau. Roedd un arall am sicrhau bod y cynllun yn croesgyfeirio i'n gofynion cyffredinol ar gyfer cyllid y Loteri fel dwyieithrwydd, llywodraethu a marchnata. Roedd un ymatebwr yn teimlo'n anghyffyrddus ynghylch ein pwyslais ar fanteisio i'r eithaf ar gyfraniadau ariannol o ffynonellau eraill.

Rhoddodd ymatebwr arall ddadansoddiad manwl i ni o gost nominal cyflawni pob un o'r meini prawf arfaethedig o fewn cynllun a chanddo derfyn uchaf: "Er bod y naw maen prawf yn adran 4.2 yn ddymunol, mae goblygiadau o ran costau ynghlwm wrth bob un. Mae gan guraduron, rheolwyr canolfannau, rheolwyr y celfyddydau a gweinyddwyr y celfyddydau oll olwg ar gost y gwaith. Mae natur uchelgeisiol cynlluniau Cyngor y Celfyddydau yn rhywbeth i anelu ato, ond pan fo'r papur yn cyfeirio at 'ddyraniad uchaf o £100,000', ac yn wir y disgwyliad y bydd y mwyafrif o'r grantiau yn llai o lawer na hynny, mae'n anodd gweld sut y gellir cyflawni'r uchelgeisiau hyn fis ar ôl mis. Yn y mwyafrif o achosion, grant Cyngor y Celfyddydau fydd y prif ffactor wrth benderfynu ar y swm sydd ar gael. Mae cleientiaid Cyngor y Celfyddydau'n dibynnu'n helaeth ar y cymorth grant y maent yn ei gael. Wrth rannu'r grant hwnnw rhwng yr ymrwymiadau allanol sydd eu hangen pan fo disgwyl i gynllun gyflawni mwy a'i gyflawni'n well, mae'r posibiliadau'n mynd yn llai fyth. Os oes naw o feini prawf gan gynllun a'i fod yn dyrannu £45,000, dyweder, ar ffurf grant, bydd gan reolwr y project £5,000 ar gyfartaledd i gyflawni'r amcanion a bennwyd."

Awgrymodd un ymatebwr y dylid ymdrin â'r meini prawf mewn dau gam: "Gall fod yna wrthdaro rhwng ceisio sicrhau lledaeniad daearyddol rhesymol a sicrhau cefnogaeth. Ac yn wir digon o incwm gan gynulleidfaoedd. Mae hyn, i bob pwrpas, yn awgrymu y dylid cymhwyso'r meini prawf trwy system ddwyradd - hynny yw, system sy'n asesu'r pedwar maen prawf cyntaf yn gyntaf. Rydyn ni'n awgrymu y dylai'r pum maen prawf olaf gael eu datblygu yn ystod ail ran y broses, *gyda chefnogaeth CCC.* Dylai hynny gynnwys ariannu'r gwaith o ddatblygu'r cysyniad, gan gynnwys datblygu rhwydweithiau marchnata a chydweithrediad y canolfannau. Heb hynny, gallai'r defnydd o'r cynllun fod yn rhy gyfyngedig."

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn.

Mae cefnogaeth canolfannau i unrhyw daith bosibl yn hanfodol yn ein barn ni. Rydyn ni'n derbyn na all amserlen y daith fod yn bendant adeg gwneud y cais, a gallai newid erbyn bod y daith yn cychwyn. Rydyn ni'n deall y rhesymau am hyn. Fodd bynnag, canfod beth yw'r galw yw un o'r egwyddorion sylfaenol wrth asesu ceisiadau – ac ni fydd hynny'n newid.

Yn achos ceisiadau i'r gronfa Teithio'n Genedlaethol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio, fe wnaethon ni gryfhau'r gofyniad arferol o ran llythyrau cefnogi trwy ofyn am dystiolaeth o

ddialog parhaus ac ymrwymiad ysgrifenedig ystyrlon. Nid ydym am wanhau'r egwyddor yma wrth gyflwyno'r cynllun ehangach. Rydyn ni'n dal i gredu'n gadarn bod taith yn gryfach o lawer pan fo gan yr holl ganolfannau ar y daith gyfran go iawn yn ei llwyddiant, a hynny dros ben yr ystyriaethau ariannol o ran eu cyllidebau unigol.

Mae yna fanteision ynghlwm wrth edrych ar broses dau-gam. Byddai hyn yn gofyn am amserlen hirach ar gyfer cynllunio projectau. Yn wir, rydyn ni wedi gweld y dull hwn yn gweithredu'n llwyddiannus trwy rai o'n cynlluniau ariannu eraill. Byddwn yn bwydo'r syniad hwn i mewn i'r adolygiad o'n rhaglenni cyllid Loteri sydd ar y gweill. Rydyn ni eisoes yn cynnig dewis 'Ymchwil a Datblygu' o fewn ein cynlluniau Grantiau Bach a Grantiau ar gyfer Cyflwyniadau Unigol, sydd ar gael ar gyfer pob dyddiad cau. Pan ddaw ein ffrwd newydd ar gyfer Datblygu Cynyrchiadau Theatr i rym, bydd y cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi projectau perthnasol ar gyfnod cynnar yn cynyddu.

Rhoddwyd croeso cynnes i'r bwriad i ehangu'r cyllid ar gyfer Teithio'n Genedlaethol i gynnwys y celfyddydau gweledol a chymhwysol. Fodd bynnag roedd sawl un o'r ymatebwyr yn poeni am y bwriad i ddefnyddio'r un meini prawf yn union ar gyfer rhwydweithiau sydd wedi eu seilio ar orielau. Fel yr oeddem eisoes wedi cydnabod, nid yw'r rhwydweithiau hyn mor ddiffiniedig a ffurfiol â rhwydweithiau canolfannau'r celfyddydau perfformio. Nid yw lledaeniad daearyddol orielau yng Nghymru mor eang â lledaeniad y theatrau a chanolfannau'r celfyddydau.

I'r un perwyl, roedd nifer fechan o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cynllun ariannu ar ei wedd bresennol yn dal i ffafrio'r celfyddydau perfformio. Dyfynnwyd rhywfaint o'r iaith a ddefnyddiwyd, a'r ffaith nad oedd y ddogfen yn cydnabod y gall amserlenni teithiau mewn orielau fod yn hirach o lawer na'u cymheiriaid ym maes y celfyddydau perfformio, fel enghreifftiau yn hyn o beth.

Dywedodd un ymatebwr, "Rydyn ni'n teimlo bod tynnu'r celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol at ei gilydd o dan un cynllun yn codi rhai cwestiynau am amserlenni a threfnu gwaith ar y cyd. Daw arddangosfa ym maes y celfyddydau gweledol yn ddiffiniedig dros gyfnod hir, a hwyrach y bydd ganddo oes o rhwng 18 mis a 2 flynedd. Mae dramâu (er enghraifft) sy'n teithio yn tueddu i fod ag oes fyrrach yng Nghymru. Pe bai cwmni ym maes y celfyddydau perfformio yn cydweithio â phartner o faes y celfyddydau gweledol ar broject ag oes hirach, a fyddai hynny'n eu hatal rhag gwneud cais ar gyfer project gwahanol?"

Dywedodd un ymatebwr wrthym fod Cymru "yn rhy fach ar gyfer celfyddydau gweledol sy'n teithio, a bod angen dimensiwn Lloegr," iddynt fod yn hyfyw. Aethant ymlaen i nodi bod rhai darnau o waith yn rhy gain neu gymhleth i deithio i ormod o orielau.

Fel y nodwyd eisoes, roedd sawl un o'r ymatebwyr yn poeni y byddai ehangu'r cynllun hwn i gwmpasu'r celfyddydau gweledol (a chymhwysol) yn cael effaith niweidiol ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer y celfyddydau perfformio sy'n teithio. Awgrymodd nifer ohonynt ryw

fath o system i ddiogelu cyllidebau er mwyn sicrhau amrywiaeth dda o ffurfiau ar gelfyddyd a grantiau.

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn. Byddwn yn ceisio dod o hyd i'r ffodd orau o sicrhau amrywiaeth dda o brojectau sy'n teithio ar draws yr holl ffurfiau ar gelfyddyd. At hynny, byddwn yn rhoi ystyriaeth gofalus i sut y gall rhai o feini prawf y cynllun adlewyrchu amgylchiadau'r gwahanol ffurfiau ar gelfyddyd. Fel y nodwyd eisoes, byddwn hefyd yn ystyried yr achos dros bennu rhai blaenoriaethau penodedig ar gyfer y gwahanol sectorau.

Fel y nodwyd uchod, y lledaeniad daearyddol oedd y mater a ddenodd y nifer fwyaf o sylwadau yn yr adran hon. Roeddem wedi cynnig y dylai'r cynyrchiadau a gefnogir gan y cyllid Teithio'n Genedlaethol wireddu lledaeniad cenedlaethol trwy deithio i o leiaf un canolfan ym mhob un o'n tri rhanbarth. Fe gynigiwyd ymhellach na allai'r unig ganolfan yn rhanbarth y De fod yng Nghaerdydd. Cymhwyswyd y meini prawf hyn yn llwyddiannus mewn rowndiau blaenorol o'r grantiau Teithio'n Genedlaethol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio. Cawsom eu bod yn hyrwyddo mwy o ddialog rhwng cynhyrchwyr a chyflwynwyr mewn gwahanol rannau o Gymru.

Roedd rhai ymatebwyr yn ochelgar o ran y maen prawf hwn, yn enwedig o ran orielau. Er enghraifft, dywedodd un o'r ymatebwyr bod ychydig iawn o orielau yng Nghymru sydd ar raddfa gyffelyb i'r rhai sydd yng Nghaerdydd, yn enwedig yn rhanbarth y De. Nid ydym yn gwadu hynny.

Aeth un arall ymhellach trwy ddweud, "Ni ellir gwireddu lledaeniad cenedlaethol bob tro am ei bod yn bosibl nad oes digon o ganolfannau o'r maint priodol er mwyn rhoi tic yn yr holl flychau. Er ein bod ni'n credu bod angen sicrhau lledaeniad daearyddol ar draws Cymru, mae angen defnyddio synnwyr cyffredin wrth ystyried y ffurf ar gelfyddyd a maint y cynnyrch sy'n teithio, yn ogystal â strategaeth raglennu'r ganolfan. Mae'n bosibl na fydd y cynnych yn cyd-fynd â strategaeth raglennu'r holl ganolfannau." I'r un perwyl, meddai un arall, "Rwy'n cytuno â'r meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau. Fodd bynnag, nid wyf yn sicr a yw hi bob tro'n wir fod angen disgwyl i gynhyrchiad deithio i bob un o dri rhanbarth CCC er mwyn iddo fod yn werth ei ariannu. Efallai y dylai hyn fod yn rhywbeth i anelu ato, ond gyda lle i'r ymgeisydd gyflwyno achos i brofi pam na fyddai hynny'n briodol yn yr achos o dan sylw?"

Mynegodd trydydd ymatebwr ei safbwynt gan ddefnyddio esiampl, "Rydyn ni'n cytuno bod y meini prawf ar gyfer ariannu yn briodol er mwyn asesu'r Gronfa Teithio'n Genedlaethol. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod angen dangos 'lledaeniad cenedlaethol' gan deithio i leiaf un canolfan ym mhob un o ranbarthau Cyngor y Celfyddydau bob tro. Er enghraifft, hwyrach y byddai'n briodol cyflwyno rhai projectau graddfa fawr yn Venue Cymru a Theatr y Grand yn Abertawe yn unig. Yn yr un modd, efallai bod arwyddocâd

rhanbarthol i broject ardal-benodol, er enghraifft, *A Good Night Out in the Valleys,* ac na allai deithio y tu hwnt i'w ddalgylch."

Ymhlith y sylwadau eraill a gafwyd ar y mater hwn roedd, "Byddai'n siomedig pe bai cynyrchiadau neu arddangosfeydd oedd yn briodol i ranbarthau penodedig, ac a oedd yn teithio i sawl canolfan, yn cael eu heithrio o'r cynllun" ac "Datblygu'r cynulleidfaoedd yw'r peth pwysig, felly oni ddylai'r cynyrchiadau fynd i'r llefydd iawn i gyflawni hynny?"

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn a byddwn yn ystyried y mater hwn yn ofalus iawn. Wrth i ni lunio'r meini prawf unedig, byddwn ni'n cadw'r gwahaniaethau rhwng sectorau'r celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol/cymhwysol mewn cof.

Ble mae cychwyn felly?

Rydyn ni am i gelfyddyd wych gael ei chreu ac rydyn ni am iddi gael ei gweld, ei phrofi, ei mwynhau, ei chyrchu, ei defnyddio, beth bynnag y dewiswch ei alw. Rydyn ni am i bobl Cymru weld amrywiaeth mor eang â phosibl o gynnyrch artistig o ansawdd uchel. Mae cyfrifoldeb arnom i wireddu hynny. Mae teithio yn elfen hanfodol yn hyn o beth.

Rydyn ni'n credu bod gwireddu lledaeniad cenedlaethol o ran celfyddyd sy'n teithio yn hanfodol er mwyn estyn allan i gynulleidfaoedd ledled Cymru. Nid yw'r argyhoeddiad hwn yn ddi-her.

Mae'r canolfannau yng Nghymru yn amrywio o ran maint, cynhwysedd, cyfleusterau, nifer y staff, polisi artistig, agwedd at daro bargen, dalgylch a photensial o ran denu cynulleidfaoedd.

Ym maes y celfyddydau gweledol a chymhwysol, mae rhai orielau'n comisiynu neu'n ysgogi gwaith a fydd yn mynd ymlaen i ganolfannau eraill wedyn. Cawn geisiadau'n aml gan artistiaid unigol i gynhyrchu gwaith ar gyfer orielau penodedig a fydd yn mynd ymlaen i deithio wedyn. Mae'r patrwm yn llai cyson yn y sector hwn fodd bynnag, sy'n adlewyrchu'r seilwaith cyfredol i ryw raddau. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu hanes a pheirianwaith ymarferol y rhwydweithiau o orielau o'u cymharu â chanolfannau cyfatebol sy'n ymwneud â'r celfyddydau perfformio yn bennaf.

Ynghyd â'r ffaith fod rhwydweithiau'n fwy datblygedig ym maes y celfyddydau perfformio, mae gan rai grwpiau o ganolfannau a chwmnïau cynhyrchu hanes hir o gydweithio. Mae rhai canolfannau wedi symud i gyfeiriad cyd-gynhyrchu, ysgogi neu gomisiynu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Y cwestiwn allweddol i ni fydd penderfynu sut y gellir gwireddu cwmpas cenedlaethol ar gyfer cymaint o'r gwaith a ariennir â phosibl. Yn hynny o beth, rhaid i ni gydnabod y

gallai rhywfaint o'r cynnyrch deithio mewn ardal ddaearyddol fwy cyfyngedig. Mae gan lawer o'r cynnyrch y gofynnir i ni ei gefnogi yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel 'apêl genedlaethol', ond hwyrach bod eraill yn fwy priodol ar gyfer cynulleidfaoedd mwy rhanbarthol - neu hyd yn oed lleol. Ni ellid disgrifio'r gwaith hwnnw fel gwaith sy'n 'teithio'n genedlaethol' fodd bynnag. Nid yw hynny'n golygu bod taith ranbarthol neu isranbarthol yn llai gwerthfawr na thaith genedlaethol. Ddim o bell ffordd. Ond yn hytrach, cydnabyddiaeth ydyw o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad.

Os yw darn o waith yn mynd i ddenu lefelau sylweddol o gyllid y cyhoeddus, oni ddylem ni gyd ymdrechu i sicrhau bod y gwaith hwnnw'n cael ei weld gan y nifer fwyaf bosibl o bobl? Oni ddylem ni i gyd wneud ein gorau i estyn allan ar draws Cymru i ddod â'r gwaith i sylw mwy o bobl? Oes, mae yna wahaniaethau diwylliannol rhwng rhanbarthau Cymru, pwy bynnag sy'n tynnu'r llinellau ar y map. Ond un genedl ydyn ni.

Rydyn ni'n dal i gredu y dylid defnyddio'r cyllid Teithio'n Genedlaethol yn anad dim i alluogi i gynnyrch o ansawdd uchel o Gymru, yn yr holl ffurfiau ar gelfyddyd, gyrraedd cynulleidfaoedd ledled Cymru, a theithio i ganolfannau yn y tri rhanbarth. Dyna un o'r rhesymau pam ein bod ni'n cynnig y cyllid lefel uwch.

Os yw cynnig yn lleol neu'n isranbarthol o ran ei natur, a bod yna resymau cryf dros gyfyngu ar gwmpas y daith, mae cyfleoedd ariannu eraill gennym i'w gefnogi.

Cwestiwn 5

"A oes yna unrhyw beth ar goll yr ydych chi'n teimlo y dylai fod wedi cael ei gynnwys?"

Cafwyd llai o atebion i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai yn teimlo nad oes dim ar goll, ond roedd eraill yn anghytuno.

Roedd sawl un o'r ymatebwyr yn poeni na fyddai digon o arian ar gael i gefnogi'r celfyddydau gweledol a chymhwysol sy'n teithio yn ogystal â'r celfyddydau perfformio. Nid oeddem wedi pennu ffigur benodol ar gyfer y gyllideb yn y ddogfen ymgynghori am nad oedd ein sefyllfa o ran y gyllideb wedi cael ei gadarnhau ar y pryd.

Roedd un ymatebwr yn teimlo na fyddai cynnig gwerth blwyddyn o gyllid yn helpu i ddatblygu partneriaethau hirdymor, yn arbennig ar y llwyfan rhyngwladol.

Nododd sawl un o'r ymatebwyr y dylem ychwanegu meini prawf. Roedd y rhain yn cynnwys hanes, hyfywedd ariannol - yn arbennig o gylch y bargeinion a gytunwyd gyda'r canolfannau, terfyn canrannol isaf ar gyfer eu cronfeydd eu hunain, ac - yn arbennig yn achos teithiau ar sail orielau - gwybodaeth weledol i brofi addasrwydd y lle arfaethedig.

Dywedodd un ymatebwr, "Agweddau arloesol at deithio, e.e. defnyddio canolfannau newydd neu anarferol - neuaddau pentref, safleoedd hanesyddol neu safleoedd awyr

agored, canolfannau nad ydynt yn gysylltiedig â'r celfyddydau. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r rhai o'r problemau y mae ardaloedd gwledig yn eu hwynebu o ran mynediad am fod y dewis o ganolfannau ar gyfer y celfyddydau'n gyfyngedig ac oherwydd problemau trafnidiaeth. Byddwn yn cynnig model Theatr Genedlaethol Cymru fel enghraifft o un rhagorol e.e. cynyrchiadau safle-benodol."

Cyflwynodd sawl un o'r ymatebwyr sylwadau am natur cysylltiad Cyngor y Celfyddydau â'r ecoleg o deithio. Meddai un arall, "Dydw i ddim yn credu y dylai CCC byth rhagnodi'r cynnyrch y dylai canolfan ei gyflwyno. Fodd bynnag, os yw CCC yn ariannu'r ganolfan ac yn rheoli'r cynnyrch sy'n teithio, yna mewn byd delfrydol dylai'r rhain ddod at ei gilydd. Os bwriedir i'r teithiau a ariennir gan CCC gydategu yn hytrach na dyblygu, yna dylai fod disgwyl i ganolfannau beidio â derbyn cynnyrch o'r tu hwnt i Gymru sy'n dyblygu'r hyn sydd ar gael gan gwmnïau Cymreig sy'n teithio." Dywedodd un arall, "Dylai'r gefnogaeth ar gyfer teithio fod yn gyson, a dylai CCC weithio gyda chanolfannau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod SCR CCC yn cael cyfleoedd cyson i deithio. Os yw canolfan yn bwcio cwmni sy'n teithio dim ond unwaith bob dwy flynedd, yna gallai hynny niweidio ei berthynas â'r gynulleidfa. Mae hynny hefyd yn golygu bod angen i'r ganolfan a'r cwmni weithio'n galetach i adsefydlu eu perthynas â'r gynulleidfa."

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn.

Rydyn ni wedi clustnodi cyfanswm o £1,000,000 ar gyfer blwyddyn gyntaf Teithio'n Genedlaethol. At ddibenion cymharu, £350,000 oedd dyraniad blynyddol blaenorol y gronfa Teithio'n Genedlaethol ar gyfer y Celfyddydau Perfformio, er y bu modd ategu hyn â chyllid Loteri arall o bryd i'w gilydd. Rydyn ni'n credu bod £1,000,000 yn gosod sylfaen gadarn iawn i gefnogi gwaith ar draws yr holl ffurfiau ar gelfyddyd.

Rydyn ni'n edrych ar hyfywedd darparu cyllid i brojectau dros gyfnod o fwy na blwyddyn mewn rhai achosion lle mae blaenoriaeth uchel. Fodd bynnag, oherwydd rheolau cyfrifeg y Loteri Genedlaethol, daw cost llawn dyraniad aml-flwyddyn allan o'r gyllideb yr un pryd, yn hytrach na chael ei rannu ar draws blynyddoedd ariannol. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o daro cydbwysedd rhwng projectau hirach a lledaenu argaeledd y grantiau.

Nododd ein dogfen ymgynghori y bydd "gofynion cyfarwydd yn gweithredu" ar gyfer Teithio'n Genedlaethol, "a fydd yn dilyn ein Canllawiau arferol ar gyfer y Loteri a'r broses o ymgeisio". Bydd hanes, hyfywedd ariannol ac isafswm lefel y buddsoddiad o'u cronfeydd eu hunain, ac addasrwydd y lle yn dal i fod yn rhan o'n prosesau asesu. Dylid darllen y Canllawiau Ategol yr ydym yn eu cyhoeddi ar gyfer Teithio'n Genedlaethol ar y cyd â'r *Canllawiau Ariannu Cyffredinol* bob tro, ond byddwn ni'n rhoi ystyriaeth gofalus i sicrhau bod y meini prawf mor glir a chynhwysfawr â phosibl.

Yn ogystal â 'chanolfannau sefydledig i'r celfyddydau' byddai diddordeb gennym gefnogi projectau sy'n dod â gwaith o ansawdd uchel i safleoedd awyr agored a chanolfannau nad ydynt yn gysylltiedig â'r celfyddydau fel rheol, ar yr amod eu bod yn addas ac yn hygyrch. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gefnogi cynnyrch mewn neuaddau pentref a chanolfannau bychain iawn trwy ein cynllun teithio cymunedol, Noson Allan.

Yn naturiol, rydyn ni am weld cymaint â phosibl o'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu yn cydweithio. Mae hyn yn cynnwys annog canolfannau a ariennir i raglennu gwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru, a sbarduno dialog creadigol rhwng y cwmnïau cynhyrchu a'r canolfannau a ariennir. Fodd bynnag, rhaid i ni i gyd gydnabod bod cynulleidfaoedd yng Nghymru am weld gwaith da o wledydd eraill hefyd. Rydyn ni'n annog y canolfannau yr ydym yn eu hariannu i gynnwys dimensiwn rhyngwladol yn eu rhaglenni.

Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i ni gyfyngu'r 'ddewislen' artistig trwy bennu cwotas o waith Cymreig, er enghraifft. Mae angen i ni daro'r cydbwysedd cywir, gan gofio taw ansawdd yw'r flaenoriaeth bob tro.

Wrth ddethol cwmnïau a gwaith, mae angen i raglennwyr canolfannau ystyried sawl ffactor, gan gynnwys polisi artistig, cynnwys, ansawdd, hanes, potensial o ran denu cynulleidfaoedd, hyfywedd ariannol, adnoddau technegol, posibiliadau marchnata, amserlenni cydganolfannau a beth arall sy'n teithio. Mae'r cynhyrchwyr am feithrin cynulleidfaoedd cyson ar gyfer eu gwaith, ond mae angen hefyd iddynt ystyried ffactorau fel cost, hanes y ganolfan o ran cymorth marchnata a thechnegol, amserlenni cydgwmnïau cynhyrchu a beth sy'n dod i mewn o dros y ffin.

Mae hi'n ddarlun cymhleth.

Nid ydym yn ymyrryd yn uniongyrchol ym mhenderfyniadau cynhyrchu neu raglennu'r sefydliadau yr ydym yn eu hariannu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddem yn poeni pe bai gwaith a gynhyrchir yng Nghymru'n dechrau cyrraedd llai a llai o ganolfannau a chynulleidfaoedd yng Nghymru.

Mae angen i ni yng Nghyngor y Celfyddydau daro cydbwysedd rhwng arwain neu ddylanwadu, ac ymateb i syniadau gwych a chynigion arloesol. Mae'r ffrwd ariannu hwn ar gyfer Teithio'n Genedlaethol yn ymateb strategol i'r angen a fynegir yn aml am fwy o gefnogaeth i fynd â gwaith da ar daith ac i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach. Ym meddyliau rhai, efallai bod yna achos dros fynd ymhellach na darparu cyllid ychwanegol; trwy greu strategaeth deithio lefel uchel o bosibl. Gellid cyflawni hyn efallai trwy symud i gyfeiriad ymyraethau mwy strwythuredig neu ddefnyddio'r adnoddau i dargedu 'bylchau' yn y ddarpariaeth o ran canolfannau neu ffurfiau ar gelfyddyd.

Cwestiwn 6

"Pe baem ni'n mabwysiadu rhai blaenoriaethau sy'n benodol i'r gwahanol sectorau, sut bethau fyddai'r rhain? A oes yna unrhyw ganlyniadau penodol i sector yr hoffech chi eu gweld?"

Roedden ni wedi gofyn y cwestiwn yma er mwyn cydnabod y gwahaniaethau yn y sectorau.

Roedd un ymatebwr yn ochelgar: "Gall pennu blaenoriaethau ar gyfer sectorau penodol beryglu aflunio 'marchnad y celfyddydau' a gosod y sectorau hynny nad ydynt yn gweddu'n rhwydd i'r penawdau blaenoriaeth dan anfantais neu eu gwthio i'r cyrion. Dylai'r gweithgarwch a gefnogir adlewyrchu'r gorau sydd gan sector y celfyddydau i gyd i'w gynnig. Rhaid ategu gweithrediad y blaenoriaethau hyn â thystiolaeth gadarn bod sector neu fath arbennig o gelfyddyd mewn perygl o fod o dan anfantais a bod yna alw gwirioneddol am gynnyrch o'r sector neu'r math o gelfyddyd, h.y. bod yna farchnad wirioneddol neu botensial ar ei chyfer." Aethant ymlaen i ddweud, "Un canlyniad ffafriol ar gyfer sector penodol fyddai darparu platfformau ar gyfer gwaith ymarferwyr trwy deithio, ond gallai hyn greu anghydbwysedd o ran yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i ymarferwyr ar gyfnodau diweddarach yn eu gyrfaoedd."

Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu'r egwyddor o flaenoriaethau penodedig ar gyfer y sectorau, a rhoesant eu rhesymau pam fod hyn yn bwysig. Roedd dau ymatebwr am weld y rhain yn cael eu datblygu trwy drafodaeth bellach gyda'r "bobl berthnasol". Fodd bynnag, nifer fechan yn unig a gyflwynodd awgrymiadau pendant o ran blaenoriaethau ac nid oedd y rhain yn cwmpasu'r holl ffurfiau ar gelfyddyd.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ein hannog ni i flaenoriaethu projectau aml-gelfyddyd neu draws-gelfyddyd. Cafwyd sawl cais i ganiatáu i gyflwynwyr aml-gelfyddyd ymgeisio am fwy nag un project y flwyddyn, gan gynnwys yn yr un cylch o geisiadau.

Er enghraifft, dywedodd un ymatebwr, "Rydyn ni'n teimlo bod tynnu'r celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol at ei gilydd o dan un cynllun yn codi rhai cwestiynau am amserlenni a threfnu gwaith ar y cyd. Daw arddangosfa ym maes y celfyddydau gweledol yn ddiffiniedig dros gyfnod hir, a hwyrach y bydd ganddo oes o rhwng 18 mis a 2 flynedd. Mae dramâu (er enghraifft) sy'n teithio yn tueddu i fod ag oes fyrrach yng Nghymru. Pe bai cwmni ym maes y celfyddydau perfformio yn cydweithio â phartner o faes y celfyddydau gweledol ar broject ag oes hirach, a fyddai hynny'n eu hatal rhag gwneud cais ar gyfer project gwahanol?"

Nododd un ymatebwr, "Ein blaenoriaethau ar gyfer sector y theatr fyddai denu ysgrifennu newydd a gwaith maint canolig o sylwedd sydd wedi ei gynhyrchu'n dda." Dywedodd ymatebwr arall o faes y theatr, "Ein blaenoriaethau ar gyfer y sector fyddai creu mwy o brofiadau i deuluoedd a phobl ifanc."

Dywedodd un ymatebwr, "Blaenoriaethau'r theatr: sicrhau nad yw cynulleidfaoedd yng Nghymru yn colli allan yn sgil teithio y tu hwnt i Gymru."

Mynegodd ymatebwyr o fyd dawns angen cyffredinol i flaenoriaethu dawns a theatr gorfforol. Meddai un, "Mae angen i'r sector dawns weithio i bontio'r bwlch rhwng beth y mae artistiaid yn ei gynhyrchu a beth y gall y canolfannau ei raglennu. Er mwyn gwneud hyn mae angen cefnogaeth i ddatblygu rhwydwaith o ganolfannau graddfa fach/amgen a chefnogaeth ar gyfer gwaith sy'n gallu diwallu anghenion y canolfannau maint canolig." Cafwyd nifer o sylwadau am barodrwydd, neu amharodrwydd canolfannau i fwcio dawns. Dywedodd un o'r ymatebwyr, "Mae Canolfannau yng Nghymru wedi dweud wrthym fod ganddynt nifer gyfyngedig o 'slotiau' ar gyfer dawns pob tymor ac mae'r Cwmni Cenedlaethol yn mynd i gymryd un o'r slotiau bob tro." Meddai un arall, "O ran dawns, gallech ddweud bod un cwmni yn cystadlu â'r llall am taw bach iawn yw'r ddarpariaeth sydd gan ganolfannau o ran bwcio dawns."

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn. Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r achos o ran pennu blaenoriaethau ar gyfer sectorau penodol. Os byddwn ni'n cymhwyso unrhyw flaenoriaethau o'r fath ar ben y meini prawf cyllido, rhown resymeg glir dros wneud hyn.

Cwestiwn 7

"Bydd y gronfa Teithio'n Genedlaethol yn 'gangen' o fewn ein rhaglen Loteri ac yn dilyn canllawiau'r Loteri i raddau helaeth. A oes yna unrhyw beth yn ein canllawiau cyfredol yr hoffech i ni ei adolygu neu ei newid?"

Cafwyd llai o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd rhai yn syml, "Nac oes". Gofynnodd un am ragor o wybodaeth am sut y bydd Teithio'n Genedlaethol yn gweithio fel 'cangen' dan adain rhaglen y Loteri. Ymysg y pwyntiau eraill roedd:

"Rwy'n ei chael hi'n od bod costau marchnata yn gymwys, ond nid costau gwefannau. Mae costau'r we fel rhan o'r gwaith o gyflawni strategaeth farchnata i'w gweld yn hollol deg, fel y byddent ar gyfer project celfyddydau sy'n benodol ar gyfer y we."

"Gall Cyngor y Celfyddydau rannu ei ddealltwriaeth o ran costau ac incwm drwy ddarparu ffigurau amlinellol y cyllidebau fel enghraifft gydag unrhyw ganllawiau ar gyfer y cynllun. Bydd hyn yn gosod pris ar ansawdd ac yn osgoi penderfyniadau sy'n golygu nad yw projectau'n cael eu hariannu'n ddigonol. Bydd hyn hefyd yn osgoi anghydraddoldebau rhwng penderfyniadau ariannu."

"Rydyn ni'n teimlo bod yr angen am lythyrau o gefnogaeth yn faich ar amser pawb ac nid ydym wedi ein hargyhoeddi am eu gwerth. Fodd bynnag, ar y cyfan mae'r cynlluniau

cyfredol yn gweithio'n dda, ac rydyn ni'n teimlo bod y cymorth a'r cyngor a gawn gan Swyddogion CCC (ac SDC Powys) yn system dda. Yn amlach na heb, mae'r cwestiwn o ran Budd a Galw o du'r Cyhoedd bron yn amhosibl i'w ateb ar gyfer gwaith arloesol o unrhyw fath. Byddai'r rhan yma o'r broses o wneud cais yn elwa ar rywfaint o ailwampio."

"Byddai'n dda cael eglurhad am rôl yr Ymgynghorwyr Cenedlaethol o ran sut y maent yn cael eu dewis i gynrychioli'r math o gelfyddyd a'u dethol i'r panel ariannu, a'u rhan ar y panel hefyd. Rydyn ni'n teimlo y byddai mwy o gynrychiolaeth o'r tu allan i Gymru yn adeiladol."

"Rydyn ni'n teimlo bod angen adolygu'r terfyn uchaf o £100,000 am nad yw'n caniatáu ar gyfer buddsoddiad digonol mewn projectau graddfa fwy a allai gyrraedd cynulleidfa sylweddol. Nid ydym yn credu y cafodd unrhyw brojectau theatr graddfa fawr eu cefnogi trwy'r cylch diweddaraf, ond cafodd nifer o gynyrchiadau graddfa fechan i ganolig fuddsoddiad sylweddol oedd yn agos at y terfyn o £100,000 neu ar lefel y terfyn. Er y gall cynyrchiadau mwy o faint adennill mwy o'r costau cynnal trwy werthu tocynnau a/neu ffioedd perfformio, mae arnynt angen buddsoddiad sylweddol o hyd trwy'r camau creu a gwireddu."

"Dylai fod yna ddau gyfle y flwyddyn i ymgeisio am gymorth i deithio (Chwefror (ar gyfer teithiau'r hydref/gwanwyn) a Medi (ar gyfer teithiau'r gwanwyn/hydref)). Byddai hyn yn cyd-fynd â chylchoedd cynllunio'r rhaglenwyr/cwmnïau sy'n teithio."

"Mae canolfannau'n bwcio tua 9-12 mis ymlaen llaw. Mae angen cynyddu'r amser a roddir rhwng y penderfyniad i ariannu â'r daith. Os gwneir penderfyniad ym mis Ionawr, yn ddelfrydol dylid caniatáu i'r perfformiadau gael eu bwcio 9-12 mis o'r mis Ionawr canlynol, h.y. dylid ymestyn yr amser cwblhau i ryw 20 mis ar ôl gwneud y penderfyniad. Bydd hyn yn datrys y broblem o sicrhau ymrwymiad cadarn gan ganolfannau cyn y gellir rhyddhau'r arian."

Ein Hymateb:

Rydyn ni wedi nodi'r sylwadau hyn. Byddant yn bwydo ein hadolygiad o'n canllawiau a'n prosesau ar gyfer cyllid y Loteri.

Gallwn ymateb i'r ddau bwynt olaf yma. Mae dau gyfle y flwyddyn i wneud cais am gymorth i deithio ar lefel y 'brif ffrwd' ar hyn o bryd; yr unig beth yw bod dyddiad cau'r hydref yn cynnig terfyn uwch o £100,000. At hynny, mae hi eisoes yn bosibl i brojectau redeg am 12 mis, felly byddai project 20 mis yn bosibl, ond mae rhai ymgeiswyr am gyflwyno ceisiadau i ni fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

"Byddai gosod gofyniad i gynnwys swyddogion celfyddydau'r awdurdodau lleol yn y broses o gynllunio projectau yn sicrhau bod modd gwireddu manteision gwirioneddol ar lefel leol ac alinio amcanion strategol. Rydyn ni'n cynnig y dylid archwilio model a fydd yn

gofyn am sicrhau argymhellion strwythuredig gan swyddogion celfyddydau'r awdurdodau lleol i fwydo penderfyniadau ariannu, yn hytrach na'r protocol cyfredol o gyflwyno 'llythyr o gefnogaeth' wrth wneud cais."

Ein Hymateb:

Mae diddordeb gennym drafod gwell ffyrdd o weithio gyda'r awdurdodau lleol bob amser. Maen nhw, fel ni, yn wynebu'r dasg o chwilio am ffyrdd o dorri eu costau a rhoi arbedion darbodaeth ar waith. Rydyn ni'n archwilio modelau ar gyfer cydweithio'n agosach trwy nifer o fentrau, fel *ArtsConnect* yn y de.

Fodd bynnag, mae llawer o'r awdurdodau lleol wrthi'n ad-drefnu eu dulliau o gefnogi'r celfyddydau a diwylliant (a llawer o wasanaethau eraill hefyd) ar hyn o bryd, a byddant yn colli rhai swyddi. Bydd y 'dirwedd' ar gyfer datblygu'r celfyddydau yng Nghymru yn edrych yn wahanol wrth i 2011/12 fynd yn ei blaen, ond byddwn ni'n dal ati i gyflwyno achos grymus dros gyd-fuddsoddi yn y celfyddydau er budd pobl Cymru.

Sylwadau Eraill

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebion i'r gwahanol gwestiynau at bwysigrwydd synergedd â blaenoriaethau ac amseriad ein ffrwd ariannu arfaethedig ar gyfer Datblygu Cynyrchiadau Theatr, er enghraifft "rydyn ni'n teimlo y byddai o gymorth pe bai'r dyddiad cau am geisiadau i'r Gronfa Datblygu Cynyrchiadau Theatr yn cyd-fynd â'r dyddiad ar gyfer y Gronfa Teithio'n Genedlaethol – byddai blwyddyn gron yn caniatáu digon o amser i gyflawni project mewn pryd i wneud cais am Deithio'n Genedlaethol ymhen 12 mis." Gofynnodd rhai pobl a gai'r ymgeiswyr llwyddiannus eu ffafrio wrth wneud cais am grantiau Teithio'n Genedlaethol wedyn.

Ein Hymateb:

Ein bwriad bob amser oedd y byddai'r ffrwd ariannu i Ddatblygu Cynyrchiadau Theatr yn cydategu'r ffrwd Teithio'n Genedlaethol. Byddai'n rhesymol tybio y byddai unrhyw broject a gai gyllid ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu yn fwy tebygol o gael cyllid i ddatblygu'r project wedyn. Fodd bynnag rhaid pwysleisio y caiff pob cais ei drin ar sail ei deilyngdod a'i asesu mewn ffordd gymharol. Ni chaiff y cyllid ei ddyfarnu'n awtomatig. Mater i bob ymgeisydd fydd dangos sut y maent wedi defnyddio unrhyw gyllid o'r ffrwd Datblygu Cynyrchiadau Theatr - neu unrhyw gyllid ymchwil a datblygu arall - i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl yn y dystiolaeth y maent yn ei chyflwyno yn eu cais am gyllid Teithio'n Genedlaethol.

Atodiad 1

Cafwyd ymatebion ysgrifenedig gan yr unigolion/sefydliadau canlynol:

Patricia Aithie

Artes Mundi

Theatr y Fwrdeistref

Chapter

Clwyd Theatr Cymru

Theatr i Bobl Ifanc Clwyd Theatr Cymru

Creu Cymru

Earthfall

Dawns India Cymru

Deborah Light

Cyngor Dinas Casnewydd

Fforwm Celfyddydau Powys

Cyngor Sir Powys

Tanja Raman

Theatrau Rhondda Cynon Taf

Sherman Cymru

Glan yr Afon

Theatr Bara Caws

Theatr Mwldan

Theatr Torch

Cafwyd sylwadau hefyd gan:

Y bobl a ddaeth i'r sesiwn grŵp yn ystod ein cynhadledd ym mis Tachwedd 2010

Aelodau Pwyllgor Rhanbarthol De Cymru